GIG CYMRU NHS WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust






## CASE STUDY

**Jason Sadler** Paramedic and Community First Responder Trainer, Newport

### My job before I was a Paramedic was not glamorous at all...

I was a car bodywork specialist in Hertfordshire, where I was born and raised. I met my future wife at a party in London and we married and moved to her hometown of Blackwood, Caerphilly. There I became a Community First Responder in my spare time.

### I knew my calling in life was to help people...

I was a lifeguard when I was a teenager, and I think that's where my interest in first aid came from. After a couple of months volunteering for the Welsh Ambulance Service, I enrolled on an Emergency Medical Technician course. My very first shift was on Bonfire Night so I was understandably nervous – but it was fine!

### I qualified as a Paramedic in 2008...

And after five years as a Paramedic, I'd progressed to Clinical Team Leader. Now I'm a Community First Responder Trainer in South East Wales and I love it.

### What I love about my job now is the buzz of teaching others...

I started my career in Wales as a Community First Responder and now I'm teaching them. There's flexibility to the job too. I still get to spend time on the road and respond to calls, so it's good that I can maintain that patient contact. I practice what I preach.

### The people in Wales are so friendly...

The first thing I noticed when I moved to Wales is that people would stop me in the street and say hello. I wasn't used to that in London; we'd walk from A to B with our heads down without saying a word to anyone. That's the thing about Wales; the locals are so friendly that it soon feels like home. There's so much to see and do, not only while you're at work but outside of work to – especially for an outdoors enthusiast like me with three children now. There's no place I'd rather be.




## ASTUDIAETH ACHOS

**Jason Sadler** Parafeddyg a Hyfforddwr Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol, Casnewydd

### Doedd fy ngwaith i cyn i fi fod yn Barafeddyg yn ddim byd arbennig o gwbl…

Arbenigydd o'n i mewn gweithio ar gyrff ceir yn Swydd Hertford, lle ces i fy ngeni a'm magu. Cwrddais i â fy narpar wraig mewn parti yn Llundain. Priodon ni a symud i'w thre enedigol hi, Y Coed Duon ger Caerffili. Yno dechreuais i weithio fel Ymatebwr Cyntaf Cymunedol yn fy amser sbâr.

### Ro'n i'n gwybod yn gynnar taw helpu pobl oedd fy ngalwedigaeth i…

Bues i'n achubwr bywydau yn fy arddegau, ac rwy'n meddwl taw dyna lle dechreuodd fy niddordeb i mewn cymorth cyntaf. Ar ôl cwpl o fisoedd yn gweithio'n wirfoddol gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, cofrestrais i ar gyfer cwrs i hyfforddi fel Technegydd Meddygol Brys. Ar Noson Guto Ffowc roedd fy sifft gynta i, felly ro'n i'n eitha nerfus – ond aeth hi'n iawn!

### Cymhwysais i fel Parafeddyg yn 2008…

Ac ar ôl pum mlynedd fel Parafeddyg ro'n i wedi symud ymlaen at fod yn Arweinydd Tîm Clinigol. Erbyn hyn rwy'n Hyfforddwr Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol yn Ne Ddwyrain Cymru ac rwy wrth fy modd.

### Yr hyn rwy'n wir garu ynghylch fy swydd bresennol i yw'r wefr wrth ddysgu pobl eraill…

Dechreuais i fy ngyrfa yng Nghymru fel Ymatebwr Cyntaf Cymunedol, ac erbyn hyn rwy'n eu dysgu nhw. Mae hyblygrwydd i'w gael yn y gwaith hefyd. Rwy'n dal i gael amser i fynd ma's ar yr heol ac ymateb i alwadu; mae'n beth da felly bo fi'n gallu cadw'r cysylltiad'na â'r cleifion. Rwy'n dilyn fy mhregeth fy hunan.

### Mae pobl yng Nghymru mor gyfeillgar…

Y peth cynta y sylwais i arno ar ôl symud i Gymru oedd bod pobl yn arfer fy stopio i ar y stryd i ddweud helô. Do'n i ddim wedi arfer â hynny yn Llundain; Bydden ni'n cerdded o le i le â'n pennau ni i lawr heb ddweud gair wrth neb. Y peth mawr ynghylch Cymru yw bod pobl yr ardal mor gyfeillgar nes bo chi'n teimlo cyn bo hir eich bod chi gartre ymhlith ffrindiau. Mae sut gymaint i'w weld a'i wneud, nid yn unig wrth eich gwaith ond y tu fa's i'r gwaith hefyd – yn enwedig i rywun fel fi sy'n dwlu ar fod ma's yn yr awyr agored. Mae tri o blant 'da fi erbyn hyn, a 'does unman lle byddai'n well 'da fi fod.